

277

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD 26ain IONAWR 2021
A GYNHALIWYD

PRESENNOL.

Nid oedd cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd coronafeirws.(Cysylltu dros ffon neu ebost)

YMDDIHEURIADAU.

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I'W ARWYDDO. Neb.

COFNODION 24ain TACHWEDD 2020 YN GYWIR. I'w sganio'n gyflym pan fydd y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailgychwyn.

CODI O'R COFNODION.

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON.

3. Preaseptau Cyngorau Cymuned a Thref 2021 / 22.
Ella C Jones CP/Cynorthwyd Gweinyddol / Swyddog Adnoddau.
Y Clerc yn amcangyfrif bydd rhywbeth fel £5,000 i £6,000 mewn llaw ar ddiwedd blwyddyn Mawrth 2021. Y Clerc yn awgrymu nad oes angen cynyddu am 2021/22.
Wrth edrych i fewn i'r cyllideb. Mae y ffensio wedi ei gwblhau ai dalu, disgwyl yn awr am arian gan y Cyngor Sir y Corvid yn rhwystr (Cyng B Rowlands)
Ychydig o gost sydd ar yr Offer Chwarae ac mae'r llwybrau yn cael ei ad-dalu (Cyngor Sir)
Teimlad fod digon o arian os fydd rhywbeth argyfwng.
Gadael y preasept fel ac y mae £8,074.00 am 2021/22. Cynnig Cyng I G Evans, eilio Cyng W G Roberts.
Nid oedd gwrthwynebiad.
4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
FW. Datganiad – Atgoffa Perchnogion Cwn Ynys Mon i lanhau ar ol e'i hanifeiliad. Sicrhau fod Cymunedau yr Ynys yn ddiogel ac yn braf i fyw ynddynt. Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Mon wedi derbyn nifer o gwynion am bobl yn methu glanhau ar ol ei ci. Nifer bach o berchnogion cwn anghyfrifol yn achosi problemau yn ein trefi a'n pentrefi.
Swyddogion Gorfodaeth yn cymryd camau ac yn gweld methiant o godi baw, cosb sefydlog £75.00.
Methu a thalu'r ddirwy yn golygu y bydd pobl yn cael eu herlyn.
Baw cwn yn beryglus i iechyd y cyhoedd (Toxocariasis) arwain at salwch difrifol neu achosi i golli eu golwg.
Os mynd a'ch ci am dro cofio mynd a bagiau gwastraff ci, sgwp neu offer addas arall.
Perchnogion cwn i ymddwyn mewn modd gyfrifol.
Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Clercod a Cyngorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.
6. BDO Archwiliad Allanol.
Cymeradwyo Adroddiad Materion yn codi a derbyn yr Awdit ddaeth i ben 31ain Mawrth 2020.
Cymeradwyo gan is Bwyllgor. (Nid oes gan y Cyngor is-bwyllgor)
Mae angen manylion ychwanegol ar lythyr penodi'r Archwilydd Mewnol. Llythyr ddim yn cynnwys manylion llawn: gallu body n siwr y bydd yr Archwilydd Mewnol yn werdd yn llawn.
(nid oes problem gyda'r llythyr penodi nawr pawb yn cydymffurfio) (Nid oes cysondeb gan yr Awditors dau Gyngor a'r Awdit wedi ei gwneud yr un modd. Codwyd hwn i Llanfachraeth ond ddim i'r Cyngor arall (Gwahanol Archwilydd) Pwy sydd yn iawn.?)
Cofrester Asedau dyddiad caffael. Cost prynnu a lleoliad. Wedi ei cyflenwi (Dim cofnod o'r hen asedau, ond yr rhai diweddar) Copi wedi ei anfon.
Cymeradwyo'r ffurflen flynyddol (Wedi ei didoli 25ain Awst 2020.)
Yr Archwiliad yn cael ei chymeradwyo. Cynnig I G Evans, eilio Cyng W G Roberts. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

RHODDION.

7. Elusen Ambiwlians Awyr Cymru. Apel Argyfwng. Gadael hyd Mawrth 2021.
8. Radio Ysbyty Gwynedd. Gadael hyd Mawrth 2021.

PLWYFOL

9. Cyng W G Roberts.
Llwybr o Eglwys Llanfigael ar draws cae i Lon Rhyd Goch (Bridle Path) Gamfa wedi pydru.
Oherwydd na wnaeth y tiffeddiannwr gydymffurfio efo rhybudd gorfodaeth i drwsio gamfa mae'r Cyngor Sir wedi rhoi archeb i un o'i Contractwyr cyn y Nadolig i osod camfa newydd, bydd y gwaith yn cael ei wneud yn fuan,
Derbyn a diolch am gydweithrediad y Cyngor Sir. (Wedi ei thrwsio erbyn hyn)
10. Cae Chwarae, Llanfachraeth.
Y Clerc am chwilio am rhywun i drwsio yr offerau. (Mae un gwr lleol a diddordeb) Gofyn am amcangyfrif am dorri glaswellt y Cae Chwarae a manau eraill sydd ddim yn cael ei gwneud yn rheolaidd.
Y Clerc wedi cael gafael ar dri a sydd diddordeb, bydd yn cyfarfod ar y safle ddiwedd y mis.
Bu Cyng I G Evans mewn cysylltiad a gwr lleol i dorri ond yn anffodus mae ganddo ormod i wneud.
11. Cyng W G Roberts.
Wedi pasio newyddion calonedig ymlaen:-
Er gwybodaeth. Mae'r defibrilator wedi cael ei ddefnyddio i achub bywyd dros y cyfnod y Nadolig.
Cyfiawnhad i'w rhoi yn y pentref.

MATERION ARIANNOL.

12. RHEDEGOL. £5,495.52. (Praeseb 3 £2,691.33) (Llwybrau £750.00)
13. CYNILLO. £3,227.70.
14. I'W TALU.
Clerc £240.00. (2 Ff's) Gweinyddu (3 mis) £197.87. Aled Owen (Ffensio) £1,380.00. Archwilio Cymru £257.00

Er nad oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan reol i dalu ein dyledion. (Disgresiwn Cadeirydd, Clerc)

